# COETIR MYNYDD

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 15fed Chwefror 2017

Dechreuodd y cyfarfod, yn y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygái, am 7.30pm

1) Ymddiheuriadau
   Martin Daws, Gwen Griffiths, Gerry Lynch, John Turner

   Bu 16 o aelodau'n bresennol yn ogystal ag un gwestai

2) Cofnodion y cyfarfod diwethaf
   Derbyn cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2016. Cynigiwyd gan Pat Mowday-Yates; Eiliwyd gan Einir Frodsham

   Materion yn codi o Adroddiad blynyddol 2016
   - Difrod stormydd: Trefnodd Cyngor Gwynedd grŵp o wirfoddolwyr i ddod i daenu rhan o'r llwybr cyhoeddus â rwbel llechi. Gwnaethpwyd sawl ymgais i drafod ymhellach â Chyngor Gwynedd drwsio'r bompren fach
   - Bioamrywiaeth – Gwibedogion brithion yma eto yn 2016; gwelwyd tingochion yn ddiweddar.
   - Beiciau mynydd – Fe'u gwelir o hyd yn dilyn "llwybr tarw" trwy'r goedwig. Ar y cyfan nid oes cymaint ohonynt ac mae'n debyg bod rasio yn erbyn y cloc ar y rhiw wedi darfod.
   - Cyd Ynni – aeth Tim a Jenny i sawl cyfarfod. Nid oes llawer yn digwydd ar hyn o bryd gan eu bod nhw'n dal wrthi'n paratoi ail gyfnod y cais i'r lotri ar gyfer cefnogaeth i ddatblygu prosiectau ynni cymunedol.

3) Adroddiad blynyddol
   - Diogelwch coed: ni chliriwyd unrhyw goed ond y rhai oedd yn blocio llwybr neu oedd wedi syrthio ar dir cymydog. Digwyddodd hyn deirgwaith yn 2016.
   - Bioamrywiaeth: Trefnodd Sharon Sweeny daith adar i chwilio am wibedogion brithion ddiwedd mis Mai. Soniodd Siân fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn chwilio am safleoedd diddorol i ymweld â hwy ac y byddai ganddynt ddiddordeb mewn ymweld â'n coedydd ni.

- Cynllun bychan trydan dŵr Gofynnodd John Farrar pryd y câi'r tagiau ar y coed eu tynnu. Dywedodd John Sweeny y gwneir hyn unwaith bod y gwaith drosodd ac nad oes eu hangen mwyach neu pan roddir y gorau i'r prosiect. Eglurwyd mai pwrpas y tagiau yw nodi ar fapiau goed unigol â diamedr mwy na 15cm gyfuwch â'r fron a chofnodi manylion pob coeden. Rhoddir côd i bob coeden yn ôl ei phwysigrwydd ar gyfer ecoleg, tirlun ayb. a defnyddir y mapiau i gynllunio o gwmpas y coed pwysicaf. Mae arolwg y coed newydd orffen, a 226 o goed wedi'u tagio.

4) Adroddiad ariannol

Gweithredodd Bryan fel Trysorydd dros dro yn 2016. Cyfnod yr adroddiad ariannol yw 1 Tachwedd 2015 hyd 31 Hydref 2016. Gweler adroddiad cysylltiedig y Trysorydd.

Mae gweddill y naill gyfrif a'r llall tua'r un faint ar ddiwedd y flwyddyn ag y buont ar y dechrau. Cymerodd 11 mis i gwblhau'r broses o ail-gofrestru llofnodwyr cyfrifon Coetir Mynydd gyda Banc y Co-op, a roes ei hun ar werth yn ddiweddar. Dymunodd y Cadeirydd gofnodi nad oedd gan CM fawr o olwg ar Fanc y Co-op.

Derbyniwyd £160 mewn tanysgrifiadau yn 2016 ac erys y ffi flynyddol yn £5. Mae Sharon a Gabe wedi dechrau cysylltu â chyn-aelodau, ond mae sawl un wedi marw, wedi symud o'r ardal neu heb ddymuno parhau i gefnogi CM. Unwaith y bydd ymgynghoriad y cynllun trydan dŵr drosodd bydd angen ymgymryd ag ymgyrch ennill aelodau CM yn y pentref, rhywbeth y buom ni'n ei ystyried ers sawl blwyddyn. Cynigiwyd sawl syniad ar gyfer hybu aelodaeth CM, megis bwrdd yn y Farchnad, a fydd yn cychwyn ym mis Mawrth.

5) Ethol y bwrdd

Yn niffyg unrhyw enwebiadau, cytunodd Tim i barhau fel Cadeirydd am flwyddyn arall ar yr amod y câi ymddiswyddo yn 2018. Cytunwyd yn unfrydol, pe deuai rhywun ymlaen a fyddai'n fodlon cymryd y Gadair, y câi wneud hyn cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Cadarnhawyd y bwrdd presennol a'i ail-ethol ar gyfer 2017.

Nid oes gofyn bod ar y bwrdd i fynychu ei gyfarfodydd, ond ni chaiff neb ond aelodau'r bwrdd bleidleisio. Mae croeso i bob aelod gynorthwyo yn ôl ei allu yng ngwaith CM. Cytunwyd i sefydlu rhestr e-bost fel y gall aelodau gadw mewn cysylltiad â gwaith y Bwrdd.

6) Cynllun Rheoli

Ar gyfer y deng mlynedd cyntaf ariannwyd paratoi cynllun rheoli'r coetir trwy gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru a weinyddid gan y Comisiwn Coedwigaeth ac yn nes ymlaen gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Daeth y cynllun i ben yn 2015 ac mae angen ei adnewyddu. Yn niffyg arian allanol, bydd aelodau Coetir Mynydd yn gwneud hyn yn fewnol. Bydd Jenny'n paratoi cynllun drafft yn seiliedig ar yr amcanion tymor hir ac fe ddosberthir y cynlluniau blaenorol ar gyfer sylwadau.

7) Datblygu cynllun bychan trydan dŵr

Lansir y cynlluniau manwl ac adroddiadau'r gwahanol arolygon mewn digwyddiad ymgynghori â'r gymuned, ddydd Sul, 26ain Chwefror. Gofynnwyd am help i ddanfon taflenni ar gyfer y digwyddiad yn ogystal ag unrhyw syniadau ynghylch sut i sicrhau

bod y deunyddiau a gyflwynid ar y diwrnod ar gael hefyd i'r rhai na allent ddod, a'r modd gorau i ddenu sylwadau ynghylch y cynigion.

8) Unrhyw Fater Arall
- Blychau adar ar gyfer gwibedogion brithion - awgrym gan Chris Allen a Sharon Sweeny y dylid gosod blwch neu ddau yn y goedwig - rhywfaint o drafod hyn; nid yw'n debyg y bydd mannau nythu i'r adar yn brin yn y coed, ond cytunwyd i osod y blychau a monitro niferoedd yr adar.
- Parc y Bwlch – Mae Jenny wedi parhau â thrafodaethau hir â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cyfraniadau gan bobl leol i'r cynllun Adnoddau ar gyfer Parc y Bwlch. Cytunwyd â Chyfoeth Naturiol Cymru y dylai Coetir Mynydd drefnu dau arolwg yn rhannau isaf y coedwigoedd - byddai myfyrwyr o Brifysgol Bangor yn ymgymryd ag arolwg coed a byddai myfyrwyr Coleg Glynllifon yn edrych ar dynnu coed allan ar raddfa fechan. Mae'r ddau goleg yn fodlon helpu, ond mae hyn yn cymryd peth amser i'w drefnu. Nid oes unrhyw frys mawr, gan mai'r gweithgaredd nesaf ym Mharc y Bwlch fydd cymynu'r llain o goed ar hyd y terfyn uchaf â Moelyci yn 2018.
- Gofynnodd Sam a wyddai neb am leoedd y gallai eu chwilio fel safleoedd gaeafgysgu ar gyfer 150 o ystlumod pedol lleiaf yr oedd wedi methu dod o hyd iddynt. Soniwyd am sawl safle y caiff ei archwilio. Cynigiodd Sam drefnu taith ystlumod ar gyfer aelodau CM.

9) Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf
Heb eu penderfynu

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 pm